

Ymchwiliad Fictoraidd



national
museum
wales
amgueddfa
cymru



CA2

Disgrifiad byr:

Dilynwch ôl troed Mr Rosser o gwmpas ei filltir sgwâr ar ddiwrnod Cyfrifiad 1851 yn Abertawe a chwrdd â phobl o bob lliw a llun.

Archwiliwch lawer o wrthrychau sy'n gysylltiedig â'r cymeriadau i gael blas ar fywyd dynion a menywod tlawd a chyfoethog y 19^{eg} ganrif.

Adborth athrawon a disgyblion:

'Roedd gweithgareddau ymchwiliol yn cynyddu diddordeb ac yn annog disgyblion i gymryd rhan.'
(Athro CA2)

Hanes

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ofyn cwestiynau a'u hateb:

- beth ydych chi'n ei wybod am fywyd y cyfnod, sut ydych chi'n gwybod hyn a sut mae dysgu mwy?
- sut fywyd oedd gan bobl gyfoethog, pobl dlawd, dynion, menywod a phlant, *e.e. tai, bwyd, ffermio, cludiant, addysg, dillad, dathliadau, arferion?*
- a wnaeth bywydau pobl newid yn fawr yn y cyfnod hwn, ac os do, pam?
- sut mae bywydau bob dydd pobl yn y cyfnod hwn wedi cael eu darlunio a'u dehongli a pham?
- pa effaith gafodd pobl y cyfnod hwn ar eu hamgylchedd?



Amcanion dysgu:

- helpu'r disgyblion i adnabod newidiadau ym mywydau bob dydd pobl yn yr ardal yn y 19^{eg} ganrif, gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol, defnyddio ystod o ffynonellau
- cael cyfleoedd i ddethol, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol a chyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau
- helpu disgyblion i ofyn a wnaeth bywydau pobl newid yn fawr yn y cyfnod hwn, ac os do, pam?
- ystyried sut fywyd oedd gan bobl gyfoethog, pobl dlawd, dynion, menywod a phlant.

Gellir addasu'r sesiwn hon ar gyfer grwpiau ag anghenion arbennig – cysylltwch â ni i drafod hyn.

I drefnu ymweliad ffoniwch (029) 2057 3600 neu e-bostiwch kathy.hoskins@amgueddfacymru.ac.uk

I gael rhagor o fanylion ewch i www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg

Ymchwiliad Fictoraidd

Gweithgaredd	Sgiliau	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
Opsiwn 40 munud neu awr: Sesiwn yng nghwmni actor cymeriad: yn ystod y sesiwn wedi'i hwyluso hon, bydd disgyblion yn cyfarfod â 'Mr Rosser' (actor yn chwarae cymeriad) fydd yn son am rai o'r bobl y mae wedi cyfarfod â nhw yn rhinwedd ei waith fel rhifwr. Byddant yn dysgu am wahanol gefndiroedd a dosbarthiadau cymdeithasol Abertawe ar ddiwrnod Cyfrifiad 1851. Byddant yn darganfod swyddi pobl gyfoethog a thlawd, dynion a menywod, yng Nghymru ddiwydiannol oes Fictoria. Byddant yn darganfod y newidiadau oedd ar droed yn y 19eg ganrif a sut y gellir gweld y newidiadau hyn mewn un ardal o dref ddiwydiannol fel Abertawe. Opsiwn 20 munud neu 1 awr: Sesiwn trin a thrafod gwrthrych: yn ystod y sesiwn wedi'i hwyluso, bydd y disgyblion yn rhannu i 6 grŵp i ymchwilio i ystod eang o bynciau sy'n gysylltiedig â rhai o'r bobl a restrir yng Nghyfrifiad 1851. Bydd yn rhaid iddynt ddewis arteffactau i gynrychioli'r unigolyn a chyfiawnhau eu dewisiadau. Bydd yn rhaid iddynt ystyried sut mae gwrthrychau'n cynnig tystiolaeth am fywydau pobl gan gynnwys gwybodaeth am eu dosbarth cymdeithasol, eu galwedigaeth a'u diddordebau. Llyfryn Fy Ymweliad â'r Amgueddfa: yn ystod y sesiwn hon dan arweiniad athro, bydd y disgyblion yn defnyddio'r llyfryn i edrych yn fwy manwl ar wrthrychau'r Amgueddfa. Gellir defnyddio'r llyfryn, sy'n gyffredinol o ran ei themâu, i ddod o hyd i wrthrychau sy'n gysylltiedig â thema'r ymweliad.	Gwybodaeth a Dealltwriaeth Hanesyddol Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion: • adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau • nodi pobl arwyddocaol a disgrifio digwyddiadau o fewn ac ar draws cyfnodau Dehongli hanes Dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion: • weld sut mae'r gorffennol yn cael ei gyfleu a'i ddehongli • gwahaniaethu rhwng 'ffaith' a 'barn', gan roi rhywfaint o dystiolaeth / rhesymau seiliedig ar wybodaeth am hyn.	Llythrennedd Darllen: Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth Agwedd: strategaethau darllen.
Trafodwch gyda'ch dosbarth: • Sut newidiodd y Chwyldro Diwydiannol rannau penodol o Gymru? Meddyliwch sut y tyfodd trefi bychain, pentrefi a ffermydd yn drefi mawr megis Abertawe a Merthyr Tudful wrth i bobl symud o gefn gwlad ac o'r tu	Datblygu meddwl Mewn hanes, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau meddwl trwy ymholi hanesyddol a myfyrio ar gwestiynau allweddol, syniadau a dehongliadau.	

I drefnu ymweliad ffoniwch (029) 2057 3600 neu e-bostiwch kathy.hoskins@amgueddfacymru.ac.uk

I gael rhagor o fanylion ewch i www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg

Ymchwiliad Fictoraidd

allan i Gymru i weithio ym myd diwydiant Gwahanol swyddi dynion, menywod a phlant oes Fictoria a hynt a helynt y bobl hyn. Daeth perchnogion gweithfeydd a diwydiannau'n gyfoethog ond roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn dlawd ac yn aml yn ennill cyflogau bach gan fyw mewn slymiau afiach llawn neu drefi cytiau.	
Adnoddau y bydd eich disgyblion yn eu defnyddio yn ystod yr ymweliad: Gwrthrychau replica a rhai go iawn sy'n gysylltiedig â gwaith a diwydiant, cartrefi, addysg, siopa ac adloniant. Darperir y llyfryn <i>Fy Ymweliad â'r Amgueddfa</i> ar ddiwrnod eich ymweliad. Dewch â'ch beiros neu'ch pensiliau eich hunain, a byrddau clip os dymunwch chi. Gwybodaeth lechyd a Diogelwch i ysgolion: www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/iechydadiogelwch	Gweithgareddau dilynol: - Ymweld â gwasanaethau archifau lleol eich ardal a chael gwybod am Gyfrifiad 1851 yn eich ardal chi - Dysgu sut roedd pobl oes Fictoria yn cyfrif eu harian - Dysgu am rai o'r dyfeisiadau newydd a gafodd eu harddangos yn Arddangosfa Fawr 1851 yn Llundain. - Ymweld â Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru i weld rhes o chwe bwthyn o Ryd-y-car ym Merthyr. Ym 1801, Merthyr oedd tref fwyaf Cymru, â phoblogaeth o 7,000.
Paratoi: - Gofyn i'r disgyblion feddwl am ychydig o gwestiynau i'w gofyn i'r actor. Dewch â nhw gyda chi a'u defnyddio yn sesiwn yr actor. - Trafod â'r disgyblion sut i drin a thrafod gwrthrychau. Eu hatgoffa bod angen iddyn nhw gadw'r gwrthrychau a nhw'u hunain yn ddiogel. - Dysgu beth yw cyfrifiad a pha wybodaeth a gasglwyd. Cael gwybod pam y caiff yr wybodaeth ei chasglu a sut y gellir defnyddio cyfrifiad i astudio hanes lleol a lle mae cael gweld ffurflenni'r cyfrifiad.	Dolenni: www.amgueddfacymru.ac.uk/2784 http://www.bl.uk/learning/histcitizen/victorians/victorianhome.html www.nationalarchives.gov.uk/victorians www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/victorian_britain

I drefnu ymweliad ffoniwch (029) 2057 3600 neu e-bostiwch kathy.hoskins@amgueddfacymru.ac.uk

I gael rhagor o fanylion ewch i www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg